

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben	2
2.	Trosolwg	2
3.	Themâu Allweddol	3
4.	Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig	6
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	8
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	9
7.	Ymgysylltu	12
8.	Gwaith Arolygu.....	13

1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei lunio gan AGIC fel crynodeb o'r gwaith a wnaed gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Bod profiad dinasyddion o ofal iechyd yn cael ei wella
- Bod dinasyddion yn gallu mynd at wybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig ac yn ychwanegu gwerth.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 26 arolygiad o leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a oedd yn cynnwys:

- Tri arolygiad ysbyty
- Tri arolygiad o bractisau cyffredinol
- 17 arolygiad o bractisau deintyddol
- Un arolygiad deintyddol dilynol
- Un ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- Un arolygiad anableddeu dysgu

O fewn y sector annibynnol yn ardal Hywel Dda, mae AGIC wedi cynnal arolygiad o dri lleoliad, gan gynnwys:

- Un arolygiad ysbyty
- Un arolygiad o ysbyty deintyddol
- Un arolygiad laser.

3. Themâu Allweddol

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC waith amrywiol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg trwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

Arolygiadau o Ysbytai'r GIG

Gwnaeth AGIC gynnal tri arolygiad cydamserol o ofal heb ei drefnu (adrannau damweiniau ac achosion brys) dros gyfnod o dridiau. Gwnaethom ymweld ag ysbytai Llwynhelyg, Glangwili a Bronglais.

- Dywedodd cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn hapus gydag ansawdd y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.
- Yn gyffredinol, roedd arweinyddiaeth a rheolaeth yn weladwy ac yn effeithiol. Mae ymgynghorwyr, staff meddygol uwch, staff nyrsio a rheolwyr ward yn glir ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol.
- Dangosodd y bwrdd iechyd ei fod yn meithrin diwylliant o ddysgu ac yn annog uniondeb personol a phroffesiynol.
- Canfuwyd gennym mewn rhai o'r manau y gwnaethom eu harolygu nad oedd gofal diogel, urddasol ac amserol wedi'i alinio'n gyson â'r Safonau Iechyd a Gofal. Fodd bynnag, roeddem yn gallu cadarnhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn effeithiol ar gyfer canlyniadau cleifion.
- Lle'r oedd dogfennaeth yn benodol i'r maes, roedd o safon dda, er nad oedd dogfennaeth ysbyty fwy cyffredinol a chynlluniau rhyddhau claf wedi'u cwblhau'n drylwyr.
- Mae angen dull mwy cydweithrediadol ar draws pob cyfarwyddiaeth ysbyty, yn bennaf y gyfarwyddiaeth llawfeddygol, er mwyn lleihau'r pwysau ar y gyfarwyddiaeth gofal heb ei drefnu.

- Mae angen gwella elfennau o brosesau atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau (roedd y bwrdd iechyd wedi buddsoddi mewn system rheoli meddyginiaeth effeithiol ond dim ond mewn un maes), a chynllunio rhyddhau cleifion
- Nid oedd cleifion yn gallu cyfathrebu â staff am eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser.
- Roedd problemau staffio parhaus o ran diffyg profiad, niferoedd annigonol a chymysgedd sgiliau.

Lle'r oedd AGIC wedi nodi bod angen gwelliant, cawsom sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud / ar waith mewn ffordd gadarn ac amserol.

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG

- Dywedodd y cleifion a/neu eu gofaluwr wrthym eu bod yn hapus gyda'u triniaeth ddeintyddol.
- Gwelsom ar y cyfan fod timau staff mewn practisau wedi ymrwmo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.
- Roedd angen i rai practisau wneud gwelliannau i ddangos eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r canlynol:
 - Dadheintio
 - Ymarfer radiograffeg / hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
 - Dadebru/cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng
 - Sicrhau ansawdd
 - Rheoli heintiau.
- Roedd angen i'r rhan fwyaf o ddeintyddion wella eu gwaith o gadw cofnodion er mwyn dangos eu bod yn cynllunio gofal i hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.
- Roedd angen i'r rhan fwyaf o bractisau wella eu gwybodaeth am gwynion.

Lle'r oedd AGIC wedi nodi bod angen gwelliant, cawsom sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud / ar waith mewn ffordd gadarn ac amserol.

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

- Gwnaethom weithio gyda dau aelod o'r cyngor iechyd cymuned leol wrth arolygu practisau cyffredinol. Dywedodd cleifion wrth y cyngor iechyd cymuned eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan eu meddyg teulu a thîm y practis.
- Yr hyn a oedd yn peri'r rhwystredigaeth fwyaf i gleifion oedd eu bod yn cael anhawster siarad â'r practis ar y ffôn i drefnu apwyntiad.
- Mae angen i rai practisau cyffredinol wella'r wybodaeth maent yn ei darparu i gleifion ar sut i godi pryder (cwyn).
- Roedd rhai problemau ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas mewn perthynas â thrafodaethau/ymyriadau iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cynnwys arferion claf/meddyg.
- Gwelliannau mewn polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch a rheoli heintiau.

Lle'r oedd AGIC wedi nodi bod angen gwelliant, cawsom sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud / ar waith mewn ffordd gadarn ac amserol.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG

Dim ond un arolygiad Deddf Iechyd Meddwl a wnaed gan AGIC yn 2015-16. O hyn, canfuom y canlynol:

- Dywedodd cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn derbyn gofal da a bod y staff yn gynorthwyol.
- Roedd pwysau ar argaeledd gwelyau a derbyn cleifion i'r ward oherwydd argyfwng pan oedd lleoliad yn y gymuned yn methu. Cafodd hyn ei waethygu gan y defnydd o welyau iechyd meddwl ar gyfer cleifion ag anabledau dysgu mewn argyfwng.
- Roedd nifer o faterion amgylcheddol a gwaith cynnal a chadw yr oedd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod y ward yn addas i'r grŵp o gleifion.

Lle'r oedd AGIC wedi nodi bod angen gwelliant, cawsom sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud / ar waith mewn ffordd gadarn ac amserol

4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau nac ymchwiliadau arbennig o fewn y bwrdd iechyd yn ystod 2015-16.

Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007

Yn ystod 2015-16, cyhoeddodd AGIC werthusiad o'r adolygiadau dynladdiad¹ a gynhaliwyd ganddi ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg
- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhau ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgyssylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Roedd rhwystrau i weithredu'r argymhellion yn codi pan oedd angen camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad ydynt yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad fod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi newid y ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n rhan uniongyrchol o bob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i'r holl fyrdau iechyd ystyried sut maent yn dysgu yn sgil yr adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent wedi bod yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad² o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut oedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar, sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi diffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn.
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.
- Mae canfyddiad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd. Dywedwyd wrthym fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi mesur ei berfformiad yn erbyn canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol fel rhan o'i broses lywodraethu.

5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau Dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roeddem yn gofyn i'r bwrdd iechyd neu'r practis ddarparu cynllun gwella ar ein cyfer yn nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau.

Roedd cynlluniau gan y practisau deintyddol yn aml yn cael eu darparu'n hwyr. Ar y cyfan, roedd cynlluniau gan y practisau cyffredinol yn cael eu darparu o fewn yr amserlen a roddwyd ac roedd cynlluniau o'r bwrdd iechyd bob tro'n gadarn ac o fewn yr amserlen. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a rhoddwyd digon o sicrwydd inni fod y gwelliannau naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael sylw. Roedd angen mwy o wybodaeth ar gyfer rhai cynlluniau gweithredu deintyddol.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 yn holi am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran y gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn ystod 2014-15. Cawsom ein sicrhau bod y bwrdd iechyd wedi cymryd y camau gweithredu angenrheidiol er mwyn rhoi sylw i'r gwelliannau a nodwyd gennym a/neu wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod cynnydd digonol yn cael ei wneud i ymateb i'r rhan fwyaf o'r problemau hyn.

Cawsom ein darparu hefyd gyda rhywfaint o sicrwydd bod y bwrdd iechyd yn datblygu ei ddull o ddefnyddio ein harolygiadau i wella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau gan sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu ac nad yw'r problemau yn cael eu hatgynhyrchu mewn manau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Sicrwydd ar Unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflwyno wyth o lythyrau sicrwydd ar unwaith mewn perthynas ag arolygiadau o ysbytai'r GIG ac arolygiadau deintyddol.

Gwnaethom anfon un llythyr sicrwydd ar unwaith at y bwrdd iechyd. Canlyniad ein harolygiad ar draws ysbytai Llwynhelyg, Glangwili a Bronglais oedd llythyr sicrwydd ar unwaith oherwydd ein bod wedi canfod nad oedd bandiau arddwrn yn eu lle ar gyfer pob claf oedolyn mewnol.

Yn dilyn ein harolygiadau o bractisau deintyddol y GIG, gwnaethom gyflwyno saith llythyr sicrwydd ar unwaith ynghylch y canlynol:

- Hyfforddiant RhYŷ(DM) – llythrau'n hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am eu bwriad i weithio ag ymbelydredd
- Dim tystysgrifau prawf critigol ar gyfer cyfarpar pelydr-X
- Deunyddiau deintyddol, offer argyfwng, offerynnau a chyffuriau y tu allan i'w dyddiad dod i ben
- Dim tystysgrif arolygu ar gyfer cynllun cynnal a chadw'r peiriannau cywasgu
- Storio diogel a chofnodion cleifion yn cael eu dogfennu mewn modd boddhaol
- Arferion recriwtio staff anfodddhaol – dim cadarnhad o frechiadau hepatitis B na gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Prosesau anniogel ar gyfer diheintio offer.

Gofal Iechyd Annibynnol

Ar y cyfan, mae canlyniadau ar gyfer gofal iechyd annibynnol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi bod yn foddhaol. Roedd gan AGIC bryderon ynglŷn â darparwr deintyddol ac anfonwyd llythyr sicrwydd ar unwaith gyda golwg ar ddechrau camau gorfodi o bosib. Gwnaethom ofyn bod y darparwr yn mynychu cyfarfod ag AGIC i fynd i'r afael â'r canfyddiadau fel cam cyntaf, ond cafodd ein sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud a bod ein hargymhellion yn cael eu diwallu.

6. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da*

yn GIG Cymru.³ Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'u comisiynu.

Mae datganiad gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel a ganlyn: "Ychwanegu bywyd i flynyddoedd a blynyddoedd i fywyd". Y weledigaeth yw darparu system gofal iechyd o'r radd flaenaf ac o'r ansawdd uchaf gyda chanlyniadau gwell i bobl yn ardal Hywel Dda.

Mewn cydnabyddiaeth bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd effeithiol yn synfyfrio ar eu heffeithiolrwydd a chadernid eu trefniadau llywodraethau yn rheolaidd, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gomisiynu adolygiad allanol o'i drefniadau llywodraethu tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15. Y canlyniad oedd ffocysu ar y trefniadau llywodraethu o fewn y sefydliad a rhoi'r argymhellion a godwyd o'r adolygiad ar waith yn gyson. I'r diben hwn, mae pob aelod bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer creu strategaeth, sicrhau atebolrwydd, monitro perfformiad a datblygu diwylliant, yn ogystal â sicrhau bod y bwrdd yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Gwnaeth un o'r canlyniadau o'r adolygiad allanol hwn arwain at aildrefnu portffolios gweithredol er mwyn darparu llinellau atebolrwydd clir ac i sicrhau bod y bwrdd yn canolbwyntio ar ei holl gyfrifoldebau. Mae hyn wedi arwain at dîm gweithredol llai, sydd wedi codi rhywfaint o bryder â sefydliadau partner AGIC o ran graddfa'r portffolios. Rydym yn deall y bydd y bwrdd iechyd yn cynnal adolygiad o'i system lywodraethu newydd o fewn blwyddyn. Rydym yn annog y sefydliad i sicrhau ei hun, fel rhan o'r adolygiad hwn, bod y portffolios mwy hyn yn gweithio'n effeithiol.

Hefyd, er bod yr adolygiad allanol wedi cydnabod bod y bwrdd iechyd wedi'i drefnu'n dda, yn deall ei rôl sicrwydd ac yn gweithio'n galed i sicrhau ei fod yn cyflenwi'r busnes cyfan, wrth gynnal ffocws hefyd ar sicrhau llywodraethiant ariannol cryf ar draws y sefydliad, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda arfarnu ei bwyllgor archwilio a gosod disgwyliadau eglur. Mae hyn wedi arwain at argymhellion ar gyfer gwella ac wedi atgyfnerthu bod gan y sefydliad

³ Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

rheolaethau effeithiol ar waith er mwyn rheoli'r risgiau arwyddocaol rhag diwallu ei amcanion strategol a bod rheolaethau yn gweithredu'n effeithiol.

Gwnaeth AGIC hefyd geisio sicrwydd yn uniongyrchol gan y bwrdd iechyd ei fod yn parhau i roi newidiadau ac argymhellion ar waith o'n harolygiadau yn ystod 2014-15. Bydd gweithgaredd arolygu'r dyfodol a chyswllt â'r bwrdd iechyd yn ystyried i ba raddau y mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hymgorffori a ph'un ai yw trefniadau'r bwrdd iechyd wedi galluogi gwersi i gael eu rhannu fel rhan o'u gwaith gwella ansawdd parhaus.

Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried i ba raddau y mae'n parhau i ddefnyddio arolygiadau AGIC fel catalydd i welliannau parhaus ac aeddfedrwydd parhaus y sefydliad.

Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried i ba raddau y mae'n parhau i ddefnyddio arolygiadau AGIC fel catalydd ar gyfer gwelliannau parhaus ac aeddfedrwydd parhaus y sefydliad.

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u safle o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu lefel aeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

Gwnaeth yr hunanasesiad a gynhaliwyd a chwblhawyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2014-15 ddangos bod arfarniad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu'n effeithiol.

Yn ogystal, daeth datganiadau o Adroddiad Blynyddol 2015 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r casgliadau canlynol:

- Roedd gan y bwrdd iechyd yn gyffredinol ddull da at reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ond roedd angen rhai gwelliannau. Nid oedd y bwrdd iechyd wedi llwyddo i fantoli'r cyfrifon yn 2013-14 ac roedd yn annhebygol o wneud hynny yn 2014-15. Mae angen i'r bwrdd iechyd ddatblygu cyfeiriad strategol clir drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig.
- Mae'r bwrdd iechyd yn gwella ei drefniadau cynllunio gweithlu ac yn cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith ymgysylltu ymhellach gyda'i boblogaeth leol, ond mae nifer o risgiau arwyddocaol o hyd yn ymwneud â'r gweithlu, ystadau ac asedau.
- Er bod gwaith archwilio perfformiad wedi cydnabod rhai meysydd o arferion da, gwnaeth hefyd gydnabod cyfleoedd i sicrhau gwelliannau yn y defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd penodol.

7. Ymgysylltu

Mae'r rheolwr perthynas ymadawol a phrif weithredwr AGIC wedi cwrdd â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae nifer o staff AGIC wedi bod yn trafod amrywiaeth o faterion â staff y bwrdd iechyd. Ar bob adeg, mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i geisiadau ar gyfer cyfarfodydd yn gadarnhaol ac yn brydlon. Bu nifer o achlysuron pan fod AGIC wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd i fynd ar drywydd pryderon penodol yn ymwneud â gwybodaeth leol, ac er bod amseroldeb yr ymateb wedi bod yn hirach na'r disgwyl, yn y pen draw mae sylw wedi cael ei roi i'r rhain mewn modd priodol. Pan ofynnwyd, mae'r bwrdd iechyd wedi rhannu ymchwiliadau gydag AGIC.

Cafwyd ymatebion prydlon i ganfyddiadau arolygiadau a llythyrau sicrwydd ar unwaith, gyda chatau gweithredu eglur ac amserlenni rhesymol.

Mewn trafodaethau ac yn eu hadroddiad blynyddol, gwnaeth y cyngor iechyd cymuned wneud sylw bod ymgysylltu wedi gwella gydag enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

8. Gwaith Arolygu

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Ysbyty

1. Ysbytai Llwynhelyg, Glangwili a Bronglais	11 Awst 2015
--	--------------

Ymarfer Cyffredinol

4. Meddygfa Furnace House, Heol St Andrews, Caerfyrddin, SA31 1EX	17 Tachwedd 2015
5. Meddygfa Tan-y-ffron, Aberaeron	1 Rhagfyr 2015
6. Deintyddfa Llanfair, Heol Llanfair, Llanymddyfri, SY20 0HY	16 Rhagfyr 2015

Practis Deintyddol

7. Practis Deintyddol Stryd Portland, 23-25 Stryd Portland, Aberystwyth, SY23 2DX	6 Mai 2015
8. Practis Deintyddol Eastgate, 29 Y Porth Bach, Aberystwyth, SY23 2AR	7 Mai 2015
9. Practis Deintyddol Achddu Villa, 18 Heol Stepney, Porth Tywyn, Llanelli, SA16 0BH	12 Mai 2015
10. Practis Deintyddol Brynteg, Dan y Banc, Heol yr Hen Orsaf, Caerfyrddin, SA31 1JN	19 Mai 2015
11. Deintyddfa Heol Llan-non, 25 Heol Llan-non, Y Tymbl Uchaf, Llanelli, SA14 6BW	27 Mai 2015
12. Practis Deintyddol Brynteg (Rhydaman)	27 Mai 2015
13. Dental Excellence, 2 Heol yr Orsaf, Penfro, SA71 4AH	3 Mehefin 2015
14. Deintyddfa, 6 Heol Y Brenin Edward, Hendy-gwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AA	16 Mehefin 2015
15. Q-Dental Care Ltd, Y Practis Orthodontig, 7 Y Parêd, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1LY	18 Mehefin 2015
16. Practis Deintyddol Feidr Fair, 7 Feidr Fair, Aberteifi, Ceredigion, SA43 1DU	30 Mehefin 2015
17. Practis Deintyddol Charsfield, Heol y Priordy, Aberteifi, Ceredigion, SA43 1BU	1 Gorffennaf 2015
18. Practis Deintyddol Stryd y Cei, The Candle Stores, Stryd y Cei, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1BB	7 Gorffennaf 2015
19. Deintyddfa'r Capel, Stryd Mansel, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1QX	28 Gorffennaf 2015
20. Denticare Llanbedr Pont Steffan, 2 Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7DS	4 Awst 2015
21. S R Badham a Phartneriaid, 147 Stryd Siarl, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 2HP	6 Awst 2015

22. My Smile Centre, 118 Heol Siarl, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 2HW	23 Medi 2015
23. Deintyddfa Portfield, 11 Portfield, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1BN	12 Ionawr 2016

Arolygiad Practis Deintyddol Dilynol

24. Practis Deintyddol IDH Mill Lane, Mill Lane, Llanelli, SA15 3SE	13 Mai 2015
---	-------------

Deddf Iechyd Meddwl

25. Tudor House, Caerfyrddin	6 Mai 2015
--	------------

Anabledd Dysgu

26. Hywel Dda/Sir Benfro	16 Rhagfyr 2015
--------------------------	-----------------

Gofal Iechyd Annibynnol

Ysbyty Aciwt

1. Ysbyty Werndale	14 Mawrth 2016
------------------------------------	----------------

Ysbyty Deintyddol

2. Tenby Dental Haven, Ace Court, Stryd Warren, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7JY	17 Chwefror 2016
--	------------------

Laser

3. Coolight Health & Beauty, 12 Stryd Mansel, Caerfyrddin, SA31 1PX	16 Gorffennaf 2015
---	--------------------